

Newyddlen Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Sir y Fflint

Rhifyn Haf 2026



Croeso i'ch diweddariad Haf 2026 gan dîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant, Cyfalaf a Phartneriaethau.

Yn y rhifyn hwn, rydym yn tynnu sylw at yr ystod eang o gefnogaeth ar bwnc gwrth-hiliaeth sydd ar gael i leoliadau blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae ledled Sir y Fflint.

Nid yw creu amgylcheddau blynyddoedd cynnar gwrth-hiliol yn ddewis ychwanegol - mae'n rhan sylfaenol o roi'r dechrau gorau posibl i bob plentyn. Mae'r profiadau sydd gan blant yn eu blynyddoedd cynharaf yn llunio eu hymdeimlad o hunaniaeth, perthyn a phosibiliadau, a dyna pam ei bod hi'n hanfodol eu bod yn gweld eu hunain, eu teuluoedd a'u cymunedau yn cael eu cynrychioli'n gadarnhaol yn y manau lle maent yn dysgu ac yn chwarae. Pan fydd ymarferwyr yn ymgorffori arfer cynhwysol, gwrth-hiliol mewn arferion, adnoddau a rhyngweithiadau bob dydd, mae plant yn ennill yr hyder i fod yn nhw eu hunain, y lles sy'n dod o deimlo'n ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi a'r ddealltwriaeth bod gwahaniaeth yn rhywbeth i'w ddathlu.

Mae'r newyddlen hon yn dwyn ynghyd ganllawiau ymarferol, cyfleoedd hyfforddi a myfyrdodau i'ch cefnogi i barhau â'r gwaith hanfodol hwn - datblygu lleoliadau lle mae pob plentyn, teulu ac aelod o staff yn teimlo eu bod yn cael eu gweld, eu parchu a'u bod yn gallu ffynnu.

"Hoffwn pe gallem edrych i wynebau ein gilydd, yn llygaid ein gilydd, a gweld ein hunain. Gobeithio nad yw'r plant wedi cael eu creithio cymaint gan eu magwraeth fel mai dim ond ofn a feddylant pan welant rywun arall sy'n edrych yn wahanol iddyn nhw."

Maya Angelou



Pam fod Gwrth-hiliaeth yn Dechrau yn y Blynyddoedd Cynnar

Mae gwrth-hiliaeth yn hanfodol yn y blynyddoedd cynnar oherwydd bod agweddau, credoau a dealltwriaeth plant o'r byd yn datblyg o'u genedigaeth.

Mae ymchwil yn dangos bod plant ifanc yn sylwi ar wahaniaethau mewn ymddangosiad, iaith a diwylliant ymhell cyn y gallant fynegi beth yw ystyr y gwahaniaethau hynny.

Gall y gred bod plant yn 'rhy ifanc' i siarad am hil neu drafodaethau am amrywiaeth aros nes bod eu plant hŷn yn anwybyddu'r rôl arwyddocaol y mae profiadau cynnar yn ei chwarae wrth lunio agweddau gydol oes. Os na fyddwn yn hyrwyddo cynhwysiant yn weithredol ac yn herio stereoteipiau, gall plant amsugno rhagfarnau o'r byd o'u cwrpas heb y sgiliau i'w cwestiynu.

Gall rhai ymarferwyr gwestiynu perthnasedd ymarfer gwrth-hiliaeth os ydynt yn meddwl mai dim ond ychydig o amrywiaeth ddiwylliannol sydd gan eu lleoliad neu ddim o gwbl. Fodd bynnag,

nid yw gwrth-hiliaeth ar gyfer lleoliadau â phlant o gefndiroedd amrywiol o ran hil yn unig. Bydd pob plentyn yn tyfu i fyny mewn cymdeithas gynyddol amrywiol a byddant yn dod ar draws pobl o wahanol ddiwylliannau, ethnigrwydd, ffydd a phrofiadau drwy gydol eu hoes. Felly, mae gan leoliadau blynyddoedd cynnar gyfrifoldeb i baratoi pob plentyn i ffynnu yn y byd hwnnw.

Mae dull gwrth-hiliol sydd wedi'i ymgorffori yn eich lleoliad o fudd i bawb drwy hyrwyddo cydraddoldeb, perthyn a pharch. Dylid cydnabod, dathlu a thrafod amrywiaeth yn eich lleoliad, waeth a yw plant o gefndiroedd mwyafrif byd-eang yn mynychu ar hyn o bryd ai peidio.

*"Mae'n anoddach torri rhagfarn nag atom"
Albert Einstein*



Ein Rôl wrth Greu Cymru Wrth-hiliol

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru yn nodi gweledigaeth i Gymru ddod yn genedl gwrth-hiliol erbyn 2030, gan gydnabod nad mater i unigolion yn unig yw hiliaeth ond un sydd wedi'i wreiddio mewn systemau, strwythurau a phrofiadau bob dydd.

Mae'r weledigaeth hon hefyd yn cael ei hadlewyrchu yng ngwaith Arolygiaeth Gofal Cymru, sydd wedi alinio ei blaenoriaethau strategol â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo arfer gwrth-hiliol ym mhob lleoliadau gofal plant cofrestredig ledled Cymru.



Mae gennym ni i gyd rôl mhanfodol i'w chwaraewrth mgyflawni'r weledigaeth hon - nid yw gwrth-hiliaeth yn ychwanegiaddewisol at arfer da; mae'n rhan hanfodol o greu amgylcheddau cynhwysol o ansawdd uchel lle mae pob plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei weld a'i glywed. Gallwn gyflawni'r weledigaeth genedlaethol hon drwy sicrhau bod pob plentyn yn gweld ei hun yn cael ei adlewyrchu'n gadarnhaol yn yr amgylchedd, yr adnoddau a'r cwricwlwm.

"Roedden ni'n esiampl dda i weddill y byd, sut y gallwch fyw gyda'ch gilydd waeth o ble rydych chi'n dod na lliw eich croen."

**Betty Campbell,
Prifathrawes Ddu Gyntaf Cymru**

Braint Pobl Wyn: Cydnabod y Manteision Anweledig ym Mywyd Bob Dydd

Mae deall braint pobl wyn yn rhan bwysig o arfer gwrth-hiliaeth oherwydd ei fod yn ein hannog i fyfrio ar brofiadau pwy sy'n cael eu gwerthfawrogi a'u cynrychioli yn eich lleoliad.

Gellir gweld braint pobl wyn mewn profiadau bob dydd fel llyfrau, teganau, cyfryngau ac adnoddau eraill sy'n adlewyrchu hunaniaeth.

I gael gwybod mwy, dilynwch y ddolen:
[BBC Bite-Size White Privilege](#)



**"What's the matter?
It's the same distance!"**

"Nid ein gwahaniaethau sy'n ein rhannu, ond ein hanallu i gydnabod, derbyn a dathlu'r gwahaniaethau hynny"

Audre Lorde

Archwilio Basgedi Adnoddau 'Y Byd O'm Cwmpas'

Mae'r Tîm Datblygu Gofal Plant yn falch iawn o rannu bod y saith basged benthyg adnoddau 'Y Byd O'm Cwmpas' cyntaf bellach wedi'u dosbarthu i leoliadau gofal plant a chwarae blynnyddoedd cynnar ledled Sir y Fflint. Mae'r basgedi hyn wedi'u datblygu i gefnogi ymarferwyr i feithrin eu hyder a'u cymhwysedd wrth ymgorffori adnoddau amlddiwylliannol yn eu hamgylcheddau a'u harferion bob dydd. Mae pob basged yn cynnwys ystod o adnoddau a ddewiswyd yn ofalus a gynlluniwyd i helpu plant i archwilio a gwerthfawrogi'r byd amrywiol o'u cwmpas. Mae canllawiau cysylltiedig yn darparu awgrymiadau ymarferol ar gyfer ymgorffori'r adnoddau yn y ddarpariaeth ddyddiol, ochr

yn ochr â syniadau gweithgareddau, cyfleoedd dysgu ac awgrymiadau i annog sgysiau ystyrlon gyda phlant.

Nid nod y basgedi hyn yw dysgu crefydd na chanolbwyntio ar wahaniaethau fel rhwystrau, ond yn hytrach i danio chwilfrydedd naturiol plant a dathlu amrywiaeth gyfoethog pobl, teuluoedd, traddodiadau, ieithoedd, bwydydd, dillad a phrofiadau sy'n ffurfio ein cymunedau a'r byd ehangach.

Drwy gyflwyno plant i ystod eang o ddiwylliannau a safbwyntiau o oedran cynnar, rydym yn eu helpu i ddatblygu empathi, parch, a dealltwriaeth, er y gall fod gennym wahaniaethau, rydym hefyd yn rhannu llawer o brofiadau ac emosiynau cyffredin.



Rhannu Adborth...

Helo, roedd y plant yn fy lleoliad wrth eu bodd yn archwilio'r fasedg. Mae'n darparu amrywiaeth hyfryd o weithgareddau a deunyddiau ymarferol i annog chwilfrydedd, archwilio a thrafodaeth am yr amgylchedd, pobl a'r byd ehangach. Roedd y plant iau yn mwynhau'r hetiau gwahanol ac yn caru'r offerynnau cerdd a'r pos. Roedd y plant hŷn yn mwynhau archwilio popeth yn y fasedg. Amanda Purdy, , Gwarchodwr Plant yn Sir y Fflint







Os hoffech chi fenthyg un o'n basgedi 'Y Byd O'm Cwmpas' ar gyfer eich lleoliad, cysylltwch â ni: ccdtraining@flintshire.gov.uk

"Rhowch gynnig y mis hwn' – Un o'r heriau isod:

- Archwiliwch eich cornel lyfrau
- Ychwanegwch luniau teulu at arddangosfeydd
- Dysgwch ynganu enw pob plentyn
- Cyflwynwch gyfarchion amlieithog

Argymhellion am lyfrau



Dewch i gwrdd â Katie Hobson, Darpariaeth Gofal Plant Mewnol Sir y Fflint

Helo, Katie Hobson ydw i, ac rwy'n gweithio i Ddarpariaeth Ofal Plant Mewnol Sir y Fflint fel cynorthwyydd gofal plant a meithrinfa. Er mis Medi 2025, rwyf wedi bod yn Hyrwyddwr Gwrth-hiliaeth a Chydraddoldeb (AREC) ar gyfer y lleoliad.. Roeddwn i'n falch o ymgymryd â'r rôl hon gan fy mod yn credu bod gan bawb yr hawl i deimlo eu bod yn cael eu clywed, eu gweld, eu gwerthfawrogi a'u parchu, boed yn blant neu'n oedolion. Rwy'n eiriolwr cryf dros degwch ac yn herio'n hyderus unrhyw rwystrau a allai effeithio ar fywydau a lles pobl.



Mae gan fy rôl lawer o agweddau; un ohonynt yw cefnogi cydweithwyr i sicrhau eu bod hwy, a'r amgylchedd rydym yn gweithio ynddo, yn hyrwyddo amrywiaeth, cynhwysiant ac ymdeimlad cyffredinol o berthyn yn weithredol. Rydym am sicrhau bod pob plentyn yn gwybod eu bod yn bwysig. Rydym yn gwneud hyn drwy ddefnyddio amrywiaeth eang o adnoddau, o ddrychau i bosau jig-so, lluniau teuluol, mapiau, baneri, lluniau o'r gymuned leol, eitemau ar gyfer cornel chwarae rôl 'cartref', llyfrau, offerynnau cerdd a ffabrigau; rydym hefyd yn gwneud llawer o ddawnsio. Rydym yn gweithio gyda rhieni ac yn gofyn a oes gemau, gweithgareddau neu ddatgliadau traddodiadol penodol y gallwn gymryd rhan ynddynt gyda'r plant.

Mae rhan o fy rôl yn cynnwys cefnogi cydweithwyr ar eu taith ddysgu drwy sgysiau agored a gonest ac adlewyrchu ar ein harferion. Rwyf hefyd yn cyfeirio pobl at gyrsiau hyfforddiant rwy'n credu a allai fod yn berthnasol i hyrwyddo amgylchedd gwrth-hiliol. Rwy'n cefnogi'r broses o adolygu polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â gwrth-hiliaeth, ac yn eu hadolygu'n rheolaidd.

Fel tîm, credwn fod pawb yn haeddu amgylchedd lle maent yn teimlo eu bod yn perthyn, yn cael eu parchu ac yn cael cyfle i ffynnu. Mae hon yn daith ddysgu barhaus sy'n newid yn gyson i bob un ohonom, ac rydym yn falch o fod yn rhan ohoni.



Lansiad Fframwaith Ansawdd – Cyflwyno'r Offeryn Fframwaith Ansawdd Newydd ar gyfer Lleoliadau Blynnyddoedd Cynnar

Mae timau'r Blynnyddoedd Cynnar a Datblygu Gofal Plant wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu Fframwaith Ansawdd Cyngor Sir y Fflint, i'w ddefnyddio gan bob darparwr gofal plant sydd wedi cofrestru i gynig lleoedd wedi'u hariannu.

Nod y fframwaith yw:

- Cydnabod arfer da ac adnabod a dathlu cryfderau
- Adnabod a chynnal lefel o safon
- Dangos bod darparwyr wedi cyrraedd safon gytunedig ymhob agwedd ar eu darpariaeth
- Nodi meysydd i'w datblygu ymhellach gyda chefnogaeth Gofal Plant y Blynnyddoedd Cynnar, timau Datblygu Gofal Plant a phartneriaid CWLWM (Blynnyddoedd Cynnar Cymru, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, Coram Pacey a Chlybiau Plant Cymru)
- Cefnogi darparwyr i adolygu ac i fyfyrion barhaus ar ymarfer a safon
- Hyrwyddo darparwyr o safon uchel i rieni a gofalwyr

Yn ystod tymor yr hydref byddwn yn rhoi'r fframwaith ar bawf ac yn casglu adborth gan ddarparwyr cyn symud ymlaen i gam cyntaf y broses o gyflwyno'r fframwaith i bawb. Rydym ni wedi dewis trawstoriad o ddarparwyr i gymryd rhan yn y cynllun peilot ac wedi cynnig sawl diwrnod ac amser ar gyfer hyfforddiant. Rydym ni'n falch iawn ein bod ni wedi cyrraedd y cam yma ble gallwn rannu gwybodaeth gydag ymarferwyr ac rydym ni'n edrych ymlaen at weithio gyda darparwyr y cynllun peilot i fireinio a datblygu'r fframwaith ymhellach. Rydym yn gobeithio wedyn y bydd y fframwaith yn fuddiol i bawb ac yn helpu'r sector i rannu arfer da.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bos - QualityFramework@flintshire.gov.uk



Diweddariadau

Mae Grant Cyfalaf Bach Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar yn Sir y Fflint wedi'i lansio ar gyfer 2026-2027.

Mae pecynnau cais wedi'u hanfon drwy e-bost at bob darparwr gofal plant cofrestredig AGC yn Sir y Fflint.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, anfonwch e-bost at:

smallgrants@flintshire.gov.uk

Dechrau'n Deg

Os nad ydych chi'n ddarparwr Dechrau'n Deg eto ond yn ystyried cofrestru, anfonwch e-bost at flyingstartproviders@flintshire.gov.uk gyda'ch ymholiad.



Ewch i [Dechrau'n Deg](#) i weld rhestr gyfredol o bob ardal sy'n rhan o ehngiad 2 oed Dechrau'n Deg.



Cynnig Gofal Plant Cymru

Mae ceisiadau'n agor ar 18 Mehefin 2026 i rieni wneud cais am Cynnig Gofal Plant Cymru cyllid to 2026.

[Cynnig Gofal Plant Cymru](#)

Llinell gymorth Cynnig Gofal Plant Cymru
ffôn: 03000 628 628



Padlet Gwyliu Ysgol Tîm Gwybodaeth i Deuluoedd

Rydym yn ceisio casglu cymaint o wybodaeth ag y gallwn am ddigwyddiadau sy'n digwydd ledled Sir y Fflint - fel nad oes rhaid i rieni wneud hynny hefyd. Rydym yn anfon y daflen hon at bob darparwr gofal plant ac ysgol i'w hanfon at rieni.

Os oes rhywbeth yn digwydd na allwch ddod o hyd iddo ar y daflen, anfonwch hi at y tîm fel y gallwn ei hychwanegu!



Gwefannau, Hyfforddiant a Chanllawiau Defnyddiol

I gefnogi lleoliadau i ddatblygu a mewnosod arfer gwrth-hiliaeth, bydd Sir y Fflint yn cynnig rhywfaint o Hyfforddiant Arfer Gorau drwy gydol y flwyddyn.

Bydd yr hyfforddiant yn darparu canllawiau ymarferol, cyfleoedd i fyfrio, a strategaethau i helpu ymarferwyr i herio gwahaniaethu yn hyderus a meithrin ymdeimlad o berthyn i bawb. Rydym yn annog pob lleoliad gofal plant a chwarae i fanteisio ar y cyfle dysgu proffesiynol gwerthfawr hwn.

Gyferbyn, fe welwch amrywiaeth o ddogfennau canllaw, adnoddau a gwefannau defnyddiol i gefnogi eich taith gwrth-hiliaeth a helpu i gryfhau arfer cynhwysol yn eich lleoliad.

[Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#)

[Deddf Cydraddoldeb 2010 Cymru](#)

[DARPL](#)

[Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth](#)

[Astudiaeth Achos NDNA](#)

[Cyngor Hil Cymru](#)

[Mudiad Meithrin](#)

[Clybiau Plant](#)

[NDNA](#)

[Diverse Cymru](#)

[Prawf doliau - Effeithiau hiliaeth ar blant](#)



Y wybodaeth ddiweddaraf gan Bartneriaid CWLWM



Mae adnoddau Coram PACEY ar wrth-hilioldeb i'w cael yma: [Coram PACEY Spotlight: Gwrth-hilioldeb Cymru](#). Mae hyn yn cynnwys dolenni i hyfforddiant, adnoddau, blogiau a thaflenni ffeithiau.



Symud o arfer di-hiliol i arfer gwrth-hiliol
Dydd Iau 24 Medi a 1 Hydref ar-lein
6:30-8pm AM DDIM

Hefyd ar gael i aelodau mae ein canllawiau [polisi Canllawiau Polisi Gwrth-hiliol](#)

Angen cyngor neu gymorth?

Os hoffech gael cymorth ac arweiniad ar ddatblygu arferion gwrth-hiliol a chreu amgylchedd cynhwysol yn eich lleoliad, mae ein tîm yma i helpu.

P'un a oes angen syniadau ymarferol, adnoddau o ansawdd uchel, hyfforddiant neu gyngor pwrpasol arnoch, rydym yn hapus i helpu. Gallwn weithio gyda chi i feithrin hyder, ymgorffori dulliau gwrth-hiliol mewn arferion bob dydd, a chreu mannau cadarnhaol a chroesawgar i bob plentyn a theulu.

Cysylltwch â ni i drafod eich anghenion, archwilio cyfleoedd hyfforddi, neu'n syml i gael sgwrs am sut y gallwn gefnogi eich taith wrth-hiliol - ccdtraining@flintshire.gov.uk



DATBLYGIAD GOFAL PLANT
CHILDCARE DEVELOPMENT
SIR Y FFLINT • FLINTSHIRE

Mae ymarfer gwrth-hiliaeth yn daith, nid yn gyrchfan.

Mae'n tyfu trwy chwilfrydedd, tosturi a pharodrwydd i ddysgu ochr yn ochr â'r plant a'r teuluoedd rydyn ni'n eu cefnogi.

Drwy greu amgylcheddau lle mae amrywiaeth yn cael ei dathlu, gwahaniaethau'n cael eu parchu a phob llais yn cael ei glywed, rydyn ni'n helpu plant i ddatblygu ymdeimlad o berthyn a'r hyder i fod yn nhw eu hunain.

Mwynhewch eich haf a diolch i chi am fod yn rhan o gymuned sydd wedi ymrwymo i wneud i bob plentyn deimlo'n gartrefol, yn werthfawr ac yn gynwysedig.

"Un diwrnod bydd ein disgynyddion yn meddwl ei bod hi'n anhygoel ein bod ni wedi rhoi cymaint o sylw i bethau fel faint o felanin sydd yn ein croen, siâp ein llygaid neu ein rhyw, yn lle hunaniaethau unigryw pob un ohonom fel bodau dynol cymhleth."

*Franklin Thomas,
dyngarwr ac ymgyrchydd hawliau sifil.*

